# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 9 Mai 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:11** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_09_05_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Rebecca Evans**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Lynne Neagle**<br>**David Rees**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Dr Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe**<br>**Pat Dunmore, Grŵp Monitro CCUHP**<br>**Martin Swain, Llywodraeth Cymru**<br>**Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Huw Lewis AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sian Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Ffion Emyr Bourton (Clerc)**<br>**Rhodri Wyn Jones (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.]

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns. Nid oedd dim dirprwyon yn bresennol.

## 2 Craffu ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a'r cynllun gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn diwygiedig

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Gomisiynydd Plant Cymru i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tyst.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Comisiynydd Plant i anfon ei bryderon ynghylch 'Gwneud Pethau'n Iawn: y wybodaeth ddiweddaraf 2013' at y Pwyllgor.

Tystiolaeth ychwanegol

## 3 Craffu ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a'r cynllun gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn diwygiedig

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Pat Dunmore a Dr Simon Hoffman i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tystion.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y tystion i anfon eu pryderon ynghylch 'Gwneud Pethau'n Iawn: y wybodaeth ddiweddaraf 2013' at y Pwyllgor.

Tystiolaeth ychwanegol

## 4 Craffu ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a'r cynllun gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn diwygiedig

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a Martin Swain i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tystion.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

(i) enghreifftiau o ble mae Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant wedi cael effaith ar ddeddfwriaeth neu bolisi penodol neu wedi llywio trafodaethau'r Cabinet, sydd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol;
(ii) y wybodaeth ddiweddaraf am y mathau gwahanol o hyfforddiant a ddarperir ar y CCUHP a nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw; a
(iii) nodyn ar gyfraniad rhanddeiliaid mewn perthynas â 'Gwneud Pethau'n Iawn: y wybodaeth ddiweddaraf 2013'.

Tystiolaeth ychwanegol

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y prif bwyntiau

5.1 Cytunwyd ar y cynnig.